Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Addysg Nant-y-Bryniau

Ysbyty Abergele
Ffordd Llanfair
Abergele
Conwy
LL22 8DP

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chanolfan Addysg Nant-y-Bryniau

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Canolfan Addysg Nant-y-Bryniau |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) |
| Darpariaeth breswyl? | Na |
| Darpariaeth ar fwy nag un safle? | Na |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 5 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 5 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 01/02/2013 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 15/05/2023 |

Mae Canolfan Addysg Nant-y-Bryniau yn gyfleuster addysgol a ddarperir gan Adran Gwasanaeth Cynhwysiant Awdurdod Addysg Lleol (AALl) Conwy ar ran pob un o’r adrannau addysg awdurdod unedol ledled Gogledd Cymru, gan gynnwys Gogledd Powys. Mae’r staff o fewn Nant y Bryniau yn gweithio o dan arweiniad Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg Conwy ac mewn partneriaeth â thîm staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yng Ngwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru (NWAS) er mwyn galluogi pob un o’r cleifion yn yr ysbyty iechyd meddwl i elwa ar eu hawl i addysg.

Mae’r uned cyfeirio disgyblion (UCD) yn darparu addysg ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion iechyd meddwl difrifol a chymhleth ac yn cael eu derbyn am gyfnod o driniaeth therapiwtig breswyl ddwys. Mae pob disgybl yn cael mynediad at y ddarpariaeth hon trwy atgyfeiriadau iechyd ac nid gwasanaethau addysg. Mae pob person ifanc yn gadael yr UCD pan fydd yn cael ei ryddhau o’r ward. Maent yn gadael gyda llwybr wedi’i nodi ac fe gânt eu cynorthwyo i fynd yn ôl i’r ysgol, y coleg, neu gyflogaeth. Pan ystyrir bod person ifanc yn rhy wael i gael mynediad at y rhain, cânt eu cysylltu â gwasanaethau priodol i ddiwallu eu hanghenion fel lleoliadau byw â chymorth. Mae pob un o’r disgyblion yn aros ar gofrestr eu hysgol brif ffrwd neu goleg trwy gydol eu cyfnod fel cleifion mewnol neu gleifion cymunedol.

Mae’r UCD yn darparu addysg ar gyfer hyd at 18 o ddisgyblion rhwng 12 a 18 oed. Mae’r UCD wedi’i lleoli mewn adeilad pwrpasol sy’n gysylltiedig â’r uned ysbyty preswyl. Un ar gyfer hyd at 12 disgybl sy’n derbyn addysg cleifion preswyl ar y safle (darpariaeth Kestrel). Yn ail, gwasanaeth cymorth addysg allymestyn ar gyfer disgyblion a all fod ar y safle neu yn y gymuned (darpariaeth Kite).

Mae tîm o wyth aelod o staff yn darparu’r cymorth addysgol dan arweiniad yr athro sydd â gofal. Caiff y cymorth addysgol ei integreiddio’n llawn gyda darpariaeth gwasanaeth iechyd. Ar gyfartaledd, mae 30 i 50 o dderbyniadau bob blwyddyn.

Mae lefel y trawma a brofwyd gan y disgyblion hyn yn sylweddol, ac o ganlyniad, efallai y byddant yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae'r pwyllgor rheoli yn cynnwys un cynrychiolydd o bob un o'r awdurdodau lleol unedol, un cynrychiolydd staff, yr athro sydd â gofal, dau o randdeiliaid y GIG, rheolwr gwasanaeth NWAS yr awdurdod lleol ac arweinydd clinigol tîm Kite.

Gan mai nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n derbyn addysg yn yr UCD ar hyn o bryd, nid yw Estyn wedi adrodd ar faes arolygu 1: Dysgu a, maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](https://fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Canolfan Addysg Nant-y-Bryniau yn ddarpariaeth addysgol ragorol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion iechyd meddwl difrifol a chymhleth sylweddol. Mae lles disgyblion yn sylfaen iddi, ac mae pob un o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu yn y ffordd orau anghenion hynod gymhleth y disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth.

Mae staff yn cyflwyno cwricwlwm hynod effeithiol sy'n cynorthwyo'r disgyblion i ailymgysylltu â dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr UCD. Mae'r staff hynod fedrus ac ymroddgar yn darparu hyblygrwydd wrth gyflwyno'r cwricwlwm i sicrhau ehangder a dyfnder profiadau dysgu. Mae'r rhain yn cefnogi anghenion dysgu, iechyd, a therapiwtig y disgyblion mewn ffordd ystyrlon. Mae profiadau dysgu wedi'u teilwra'n eithriadol o dda i'r unigolyn, ac yn sicrhau cydbwysedd rhwng cymorth ar gyfer lles disgyblion ac astudio academaidd yn eithriadol o effeithiol. Mae hyn yn galluogi disgyblion i fagu hunanhyder a medrau annibyniaeth, a datblygu lefelau cynyddol o wydnwch mewn dysgu a gweithgareddau bob dydd. Mae'r cydweithio cryf ymhlith yr holl aelodau staff, ynghyd â phrosesau olrhain ac asesu hynod effeithiol, yn golygu bod cynnydd disgyblion yn cael ei fonitro'n eithriadol o dda.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder sylweddol yn yr UCD. Mae staff yn datblygu cysylltiadau hynod effeithiol gydag ysgolion prif ffrwd a cholegau disgyblion i'w cynorthwyo i barhau â'u llwybrau addysgol. Mae perthynas weithio ddi-dor ac eithriadol o gryf rhwng cydweithwyr iechyd a staff addysgol ar y safle wedi hen ennill ei phlwyf. Mae'r cydweithio hwn yn rhoi anghenion y disgyblion yn ganolog i'r holl gymorth dysgu a therapiwtig.

Mae staff yn darparu amgylchedd dysgu diogel, gofalgar a chynhwysol, lle caiff disgyblion eu hannog yn gryf i lwyddo yn eu dysgu. Mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth ddofn o anghenion yr holl ddisgyblion. Cefnogir hyn yn dda trwy arlwy dysgu proffesiynol hynod effeithiol a phwrpasol ar gyfer pob un o'r staff.

Mae arweinyddiaeth yn yr UCD yn eithriadol o gryf. Mae'r athro sydd â gofal yn darparu arweinyddiaeth eithriadol o dda ac wedi datblygu ymagwedd tîm gref gyda'r staff. Mae hyn yn golygu bod pob un o'r staff yn meddu ar synnwyr clir o weithio gyda'i gilydd i ysgogi gwelliant. Mae arweinyddiaeth yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth hynod effeithiol er budd y disgyblion, y rhieni a'r gofalwyr.

## Argymhellion

A1 Cryfhau rôl y pwyllgor rheoli

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr UCD i baratoi dwy astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â'r canlynol:

- Datblygu darpariaeth Gymraeg ar draws yr UCD
- Effaith yr offeryn olrhain gweithrediad iechyd meddwl mewn addysg (MHFE)

i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Er mwyn diwallu anghenion hynod gymhleth y disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth, lles disgyblion yw sylfaen holl waith yr UCD. Mae'r tîm addysg yn gweithio mewn partneriaeth eithriadol o agos â chydweithwyr ym maes iechyd i ddatblygu gweithgareddau dysgu hynod deilwredig.

Mae staff wedi datblygu ymagwedd strategol a ystyriwyd yn ofalus at gynllunio'r cwricwlwm. Mae gweithgareddau dysgu'n cyd-fynd yn gryf â'r weledigaeth ar y cyd ar gyfer y cwricwlwm, addysgu, ac anghenion y disgyblion. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm yn darparu ehangder a dyfnder buddiol o brofiadau dysgu sy'n cefnogi anghenion dysgu, iechyd a therapiwtig y disgyblion mewn modd ystyrlon. Mae'r cwricwlwm yn cefnogi datblygu hyder a gwydnwch ymhlith y disgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd.

Mae staff yn cynllunio'n greadigol ar gyfer ystod o brofiadau dysgu, sy'n cyd-fynd yn agos ag anghenion a diddordebau disgyblion, sydd wedi'u nodi'n glir. Mae'r rhain yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth, anghenion a medrau disgyblion. Mae hyn yn cynorthwyo a herio disgyblion yn effeithiol i'w galluogi i ymgysylltu'n dda â'u dysgu pan fyddant yn ddigon iach i fynychu'r UCD a gwneud y cynnydd gorau posibl.

Mae staff yn yr UCD yn gwneud cynnydd da yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Cynllunnir trwy'r meysydd dysgu a phrofiad (MDPh) a rhoddir sylw priodol i'r Pedwar Diben wrth gynllunio'r cwricwlwm. Caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei chynllunio'n sensitif mewn cydweithrediad â phartneriaid iechyd i gefnogi dealltwriaeth disgyblion ynglŷn â pherthnasoedd iach, iechyd rhywiol a chadw'n ddiogel.

Mae staff yn cynllunio ystod o weithgareddau creadigol ar gyfer disgyblion hŷn, sy'n canolbwyntio'n dda ar gyflogadwyedd a medrau'n gysylltiedig â gwaith. Mae'r rhain yn helpu gwella dealltwriaeth a chodi dyheadau disgyblion ynglŷn â gyrfaoedd a gwaith yn y dyfodol a'u helpu i wneud dewisiadau gwybodus. Mae enghreifftiau'n cynnwys ymweliadau gan siaradwyr allanol fel meddyg sydd wedi bod yn gweithio yn Antarctica a rhannu teithiau cyflogaeth staff. Caiff gweithgareddau lles eu cynllunio'n dda i ddatblygu medrau cyfathrebu, adeiladu tîm a meddwl trwy amrywiaeth o heriau, er enghraifft creu cylch 3D o greision, a'r her sbageti.

Mae'r UCD yn trefnu darpariaeth gref ar gyfer datblygu medrau Cymraeg mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Caiff gwersi eu

cynnal yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo'n briodol. Mae staff yn fodelau rôl rhagorol ar gyfer yr holl ddisgyblion o ran rhannu eu hangerdd eu hunain dros ddysgu'r iaith. Cânt eu cynorthwyo'n dda i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg, ac o ganlyniad i hyn, mae pob un o'r staff naill ai'n rhugl yn y Gymraeg, neu'n ddysgwyr hyderus sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn briodol yn ystod cyfnodau addysgu a thrafod anffurfiol. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn gryfder yn yr UCD.

Mae staff addysg yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael am anghenion dysgu a lles disgyblion unigol yn drylwyr wrth gynllunio'r cwricwlwm ac wrth gyflwyno gwersi unigol. Mae hyn yn arwain at gynlluniau disgyblion unigoledig hynod deilwredig, sensitif ac integredig, sy'n mynd i'r afael yn gadarnhaol ag anghenion dysgu, meddygol a therapiwtig disgyblion.

Mae athrawon yn dangos gwybodaeth bwnc gadarn iawn am y meysydd dysgu y maent yn gyfrifol amdanynt. Yn ychwanegol, maent yn hynod hyblyg ac yn gallu diwygio cynllunio o fewn eu maes pwnc dynodedig neu i gyflwyno meysydd dysgu newydd i lefel uchel, pan fydd angen. O ganlyniad, mae cynllunio yn cysylltu'n dda iawn â'r cwricwlwm yn narpariaeth brif ffrwd y disgyblion. Mae hyn yn cefnogi cyfnodau pontio llwyddiannus a dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant disgyblion yn effeithiol.

Mae staff yn ystyried cynnwys gwersi yn ofalus er mwyn darparu cydbwysedd rhwng astudio a gweithgareddau ymarferol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar lefelau ymgysylltu a gwydnwch disgyblion. Mae pob un o'r staff yn darparu cymorth hynod effeithiol a sensitif i feithrin anghenion dysgu a gofal unigol disgyblion trwy gydol y dydd. Mae staff cymorth yn meddu ar gymwysterau a phrofiad da iawn ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddarparu cymorth medrus. Mae'r berthynas rhwng staff a disgyblion yn hynod effeithiol ac mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn saff, bod pobl yn eu deall a'u bod yn derbyn gofal. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu ac ymgysylltu yn ystod eu cyfnod yn yr UCD.

Mae staff yn defnyddio technegau holi'n effeithiol ac yn sensitif i wirio dealltwriaeth disgyblion, ysbrydoli meddwl deallusol dyfnach a meddwl yn feirniadol am y pwnc sy'n cael ei addysgu. Mae her a disgwyliadau yn uchel. Trwy gydol gwersi, mae staff yn rhoi adborth llafar defnyddiol a pharhaus i ddisgyblion ynglŷn â'r cynnydd y maent yn ei wneud. Mae ymateb disgyblion i adborth ysgrifenedig yn anghyson.

Mae staff yn gwneud defnydd creadigol o'r gofod cyfyngedig yn yr awyr agored ar y safle. Maent yn defnyddio hyn yn effeithiol i gefnogi lles a datblygiad dealltwriaeth o fedrau penodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am gynaliadwyedd, yn tyfu eu bwyd eu hunain, ac yn ei werthu i staff. Mae disgyblion wedi elwa hefyd ar gyflwyniad gan athro sy'n arbenigo mewn gwenyn a'u pwysigrwydd ym myd natur. Mae staff yn defnyddio ardaloedd lleol yn yr awyr agored i ymestyn arlwy'r cwricwlwm yn effeithiol, er enghraifft teithiau cerdded lles trwy goetiroedd ac ymweliadau â'r traeth lleol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Canolfan Addysg Nant-y-Bryniau yn darparu amgylchedd cynnes, croesawgar a diogel iawn sy'n dathlu unigoliaeth disgyblion yn gryf ac yn datblygu eu hunan-barch. Mae ethos gofalgar y tîm staff cyfan a defnyddio ymagweddau yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn cyfrannu'n hynod effeithiol at les, ymgysylltiad a datblygiad personol

disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r amgylchedd anogol hwn, ac o ganlyniad, yn datblygu lefelau gwell o les a hyder yn eu dysgu ac yn eu bywydau bob dydd.

Mae staff yn gwybod ac yn deall anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn dda iawn. Mae'r UCD yn cysylltu'n effeithiol â darpariaeth brif ffrwd i gasglu gwybodaeth am lwybrau dysgu a chyrhaeddiad disgyblion wrth iddynt gael eu derbyn. Yn ychwanegol, pan fydd yn briodol i'r disgybl, mae staff yn cynnal asesiad gwaelodlin addas o gyrhaeddiad disgyblion, gyda ffocws penodol ar iechyd meddwl a lles. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn hynod effeithiol i ddatblygu llwybrau dysgu teilwredig addas sy'n diwallu anghenion unigol y disgyblion, yn unol â'u hanghenion iechyd sylweddol.

Mae'r UCD yn gweithio'n eithriadol o dda mewn partneriaeth â phobl eraill, er enghraifft gwasanaethau iechyd, gyrfaoedd, a gwasanaethau cymdeithasol. Mae gweithio mewn partneriaeth â'r tîm iechyd yn eithriadol o gryf, ac fe gaiff gwaith y tîm addysg ei werthfawrogi'n fawr ganddynt. Mae'r cysylltiadau cryf hyn yn cefnogi'r cynnydd a wna disgyblion yn gadarnhaol, ac yn galluogi'r tîm cyfan i gael diben ar y cyd a hyder yn ei gilydd. Er enghraifft, mae aelodau o'r tîm addysg yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr iechyd mewn elfennau o ymagwedd therapiwtig. Mae'r sesiynau hyn yn cynorthwyo disgyblion yn dda i ddatblygu strategaethau i ymdopi â straen a gorbryder, rheoli eu hemosiynau, a gwella'u perthnasoedd â phobl eraill.

Mae staff addysg yn sefydlu perthnasoedd gwerthfawr â rhieni a gofalwyr ac yn datblygu llinellau cyfathrebu effeithiol gan ddefnyddio dulliau sydd fwyaf priodol i'r teuluoedd. Maent yn gweithio'n bwrpasol ochr yn ochr â'r swyddog cyswllt teuluoedd mewn iechyd. Mae hyn yn galluogi'r staff addysg i ddeall safbwynt y rhieni a'r gofalwyr ar addysg ac yn cefnogi'r disgyblion a'u teuluoedd ymhellach.

Mae'r UCD yn monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol gan ddefnyddio offeryn olrhain a monitro teilwredig. Defnyddir y system hon yn eithriadol o dda i gynllunio'n rheolaidd ar gyfer dilyniant mewn medrau, gan sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cyflawni orau y gallant. Mae rhoi ystyriaeth i iechyd meddwl, hyder a medrau cymdeithasol disgyblion yn hanfodol i'r broses. Mae'r trafodaethau tîm ynghylch cynnydd yn galluogi staff i gydnabod a myfyrio pan allai broblemau godi i'r disgyblion, ac yn sicrhau bod y strategaethau mwyaf priodol yn cael eu defnyddio i'w cynorthwyo. Er enghraifft, yn ystod cyfnodau anodd pan fydd iechyd meddwl disgybl yn dirywio dros dro, mae gallu'r tîm i ganolbwyntio ar y camau bach mewn cynnydd a theilwra addysg i anghenion unigol yn nodwedd gref yn yr UCD.

Mae'r UCD yn creu cynlluniau defnyddiol fel proffiliau un dudalen a rhaglenni unigol, sy'n helpu staff i gynorthwyo'r disgyblion yn eu dysgu yn ogystal â rheoli eu gorbryder a'u hymddygiad. Mae cynlluniau'n cael eu rhannu'n effeithiol ar draws y tîm staff cyfan, ac yn cynnwys cydweithwyr o faes iechyd, sy'n sicrhau cysondeb ar draws y ddarpariaeth. Megis dechrau datblygu y mae'r rhaglenni unigol hyn.

Mae staff yn gweithredu polisi ymddygiad yr UCD yn gyson ac yn cofnodi digwyddiadau'n briodol, ar y cyd â chydweithwyr iechyd. Mae prosesau i fonitro digwyddiadau o'r fath a nodi patrymau a thueddiadau penodol yn gadarn ac yn cael eu defnyddio'n rheolaidd fel rhan o gyfarfodydd tîm dyddiol ac i lywio cynllunio. Mae'r

UCD yn gallu dangos y cynnydd a wna disgyblion yn glir wrth gynllunio cyfleoedd iddynt ddychwelyd i'w darpariaeth brif ffrwd.

Mae disgyblion yn elwa ar gymorth a chyngor sensitif gan staff o ran llwybrau gyrfa yn y dyfodol a'r camau nesaf. Mae'r UCD yn annog amrywiaeth o ymwelwyr i siarad â'r disgyblion am eu rolau. Yn ychwanegol, mae staff yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr â Gyrfa Cymru i ddarparu cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd. Ceir cyfleoedd hefyd i ddisgyblion fynychu digwyddiadau gyrfaoedd lleol, lle bo'n briodol. Gall mwyafrif y disgyblion adael Nant y Bryniau a phontio'n llwyddiannus i leoliad addysg arall, er enghraifft dychwelyd i'w hysgol brif ffrwd neu goleg addysg bellach, gan gynnwys prifysgol.

Mae'r UCD yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd a'r amgylchedd, er enghraifft datblygu ardal yr ardd trwy greu gwestai chwilod a chreu lapiadau bwyd cwyr gwenyn. Yn ychwanegol, mae'r UCD yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol, er enghraifft trwy ddathlu eu gwaith fel tref masnach deg. Caiff disgyblion eu cynorthwyo i ymgymryd â gweithgareddau codi arian fel tombola masnach deg a gwerthu cacennau a chrefftau wedi'u creu â llaw i godi arian ac ymwybyddiaeth am elusennau iechyd meddwl.

Mae'r UCD yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob un o'r disgyblion gael dweud eu dweud ynglŷn â'u dysgu ar lefel unigol wrth benderfynu ar eu cwricwlwm ac fel rhan o'r cyngor myfyrwyr cynhwysol. Er enghraifft, gofynnodd aelodau o'r cyngor myfyrwyr am wersi cerddoriaeth. Mae'r rhain ar waith erbyn hyn, ac mae athro cerddoriaeth peripatetig yn mynychu bob wythnos i gyflwyno gwersi drwm, gitâr ac allweddellau.

Ceir diwylliant diogelu cadarn yn yr UCD, sy'n adlewyrchu bregusrwydd y disgyblion yn briodol. Mae staff ar bobl lefel yn dilyn gweithdrefnau clir i sicrhau bod disgyblion yn derbyn cymorth ac amddiffyniad effeithiol, a'u bod yn ymwybodol o'u rôl mewn cadw disgyblion yn ddiogel. Mae staff yn deall y trefniadau ar gyfer diogelu ac yn ymateb i bryderon ynghylch diogelu yn brydlon.

Mae pob un o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant buddiol rheolaidd i gadw disgyblion a nhw eu hunain yn ddiogel. Yn ogystal â hyfforddiant gorfodol, mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ochr yn ochr â chydweithwyr iechyd i'w galluogi i gael dealltwriaeth ddyfnach o'r problemau iechyd meddwl cymhleth sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles y disgyblion. Mae trefniadau'r UCD i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r athro sydd â gofal yn darparu arweinyddiaeth sicr ac eithriadol o gryf. Mae arweinwyr, ar y cyd â phob aelod o staff, wedi datblygu gweledigaeth glir i addysgu ac ysbrydoli disgyblion a'u paratoi yn y ffordd orau posibl ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol.

Ceir ymagwedd ac ysbryd tîm ffocysedig, a reolir yn eithriadol o dda, ym mhob dim sy'n digwydd yn yr UCD. Mae'r berthynas weithio eithriadol o gryf rhwng staff a disgyblion yn hyrwyddo ethos cefnogol, cynhwysol a gofalgar sy'n treiddio ar draws yr UCD. Mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar gynnydd a datblygiad disgyblion.

Mae rolau a chyfrifoldebau staff wedi'u dosbarthu'n hynod effeithiol i wneud y defnydd gorau o fedrau unigolion ar draws yr UCD, ac yn gryfder. Mae athrawon a staff cymorth yn cymryd cyfrifoldeb am wahanol agweddau ar waith yr UCD, er enghraifft meysydd dysgu a phrofiad, ymagweddau sy'n ystyriol o drawma, gwaith therapiwtig gyda chydweithwyr iechyd, a'r Gymraeg. Mae hyn yn golygu bod gan bob un o'r staff synnwyr clir o weithio gyda'i gilydd i yrru gwelliant.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu lles disgyblion, sy'n ategu gwaith pob un o'r staff. Mae hyn yn cynnwys cydbwysedd da, gyda chyfleoedd i ennyn diddordeb disgyblion mewn dysgu lle mae gan staff ddisgwyliadau uchel. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n graff ar fedrau a'r camau nesaf ar gyfer disgyblion. Gyda'i gilydd, mae pob aelod o staff yn fodelau rôl eithriadol o dda ar gyfer disgyblion, sy'n eu cynorthwyo'n effeithiol i ailymgysylltu â dysgu yn gadarnhaol.

Ceir grŵp cryf, hynod fedrus ac ymroddgar o staff yn yr UCD sy'n gweithio gyda'i gilydd er budd eu disgyblion. Caiff hyn ei gryfhau ymhellach trwy arlwy di-dor y ddarpariaeth a'r cydweithio hynod effeithiol rhwng staff iechyd a staff addysgol. Mae hyn yn cefnogi cynnydd disgyblion, eu hanghenion iechyd meddwl a'u lles, ac yn cyfrannu at y lefel eithriadol o uchel o ofal disgyblion. Mae'r ymagwedd gydweithredol rhwng staff iechyd a staff addysg yn cefnogi disgyblion yn weithredol i wneud cynnydd yn llwyddiannus, er enghraifft i ddychwelyd i addysg brif ffrwd, addysg bellach, cyflogaeth, neu hyfforddiant. Pan nad yw hyn yn bosibl, o ganlyniad i anghenion iechyd person ifanc, mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gyda gwasanaethau eraill, i gynllunio llwybrau addas pan fyddant yn gadael yr UCD.

Mae'r athro sydd â gofal wedi sefydlu system gadarn o brosesau sicrhau ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau dysgu, craffu ar lyfrau a monitro fforensig wythnosol yr offeryn olrhain gweithrediad iechyd meddwl mewn addysg (MHFE) ar gyfer pob disgybl gyda phob aelod o staff. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth fanwl gywir o gryfderau'r UCD a'r meysydd i'w gwella.

Mae rheoli perfformiad ar gyfer athrawon a staff cymorth yn drylwyr. Mae amcanion yn cysylltu'n dda â chynllun datblygu'r UCD. Mae hunanwerthuso a chynllunio datblygiad yn gryfder yn yr UCD. Yn ychwanegol, mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant cryf o fyfyrio a chydweithio, sy'n cynorthwyo staff i werthuso'u harfer a nodi sut gallant wneud gwelliannau.

Mae arweinwyr yn darparu lefelau uchel o atebolrwydd a chymorth trwy raglenni datblygiad proffesiynol wedi'u cynllunio'n bwrpasol a hynod effeithiol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n llwyddiannus at welliannau yn effeithiolrwydd yr addysgu, gan gefnogi anghenion iechyd meddwl a lles disgyblion. Er enghraifft, mae ymagweddau therapiwtig yn dylanwadu'n gryf ar ryngweithio i gynorthwyo disgyblion i fagu gwydnwch a dod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r athro sydd â gofal yn rhoi pwyslais hynod gryf ar wella medrau staff yn barhaus. Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl gywir o gryfderau staff ac yn rhoi cyfleoedd rheolaidd iddynt ddatblygu mewn meysydd eraill. Er enghraifft, mae arweinwyr yn cynorthwyo staff i ddatblygu eu medrau Cymraeg ac yn treulio amser mewn ysgol brif ffrwd i wella'u Cymraeg a'u gwybodaeth am gyflwyno cymwysterau TGAU Cymraeg. Mae pob un o'r staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd sy'n cyd-fynd

yn dda â’r cynllun datblygu ysgol. Mae hyn yn effeithio’n gadarnhaol ar welliannau mewn addysgu, lles disgyblion a staff ac anghenion iechyd meddwl y disgyblion.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant diogelu cadarn yn yr UCD. Mae staff yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth fanwl ynghylch gweithdrefnau diogelu. Mae’r diwylliant hwn wedi hen ennill ei blwyf ac yn cael ei gefnogi gan gyfleoedd hyfforddiant gwerthfawr. Mae gwybodaeth drylwyr staff am natur eithriadol o fregus eu disgyblion yn golygu eu bod yn darparu amgylcheddau a chyfleoedd dysgu diogel ar gyfer yr holl ddisgyblion trwy gydol y dydd.

Mae gan arweinwyr berthynas weithio hirsefydledig a chryf â’u gwasanaeth rhanbarthol gwella ysgolion. Mae staff yn elwa ar y ddeialog a’r cyfleoedd datblygiad proffesiynol a ddarperir, sy’n cefnogi cynnydd yn effeithiol wrth fynd i’r afael â blaenoriaethau gwella’r UCD.

Yn dilyn cyfnod o newid yn aelodaeth y pwyllgor rheoli, mae eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau ar gyfer aelodau’r pwyllgor yn dechrau cael ei ddatblygu. Nid yw effaith yr her a’r cymorth a ddarperir gan aelodau’r pwyllgor ar gyfer yr athro sydd â gofal wedi’i datblygu’n ddigonol, ac mae’n faes i’w wella.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol / pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol / UCD a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr / pwyllgor rheoli, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol / UCD
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol / UCD, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol / UCD
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol / UCD ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol / UCD wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol / UCD, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol / pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  19/07/2023